**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL RHITHIOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 18/06/2020 AM 7.00PM**

1. **CROESO'R CADEIRYDD**
Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones, holl yn bresennol, i'r Cyfarfod.
**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL (CCB) 2020**
Cytunwyd i gynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar nos Iau 16eg o Orffennaf 2020 os bydd yn bosibl i gyfarfod yn y cnawd, yn Neuadd Pantyfedwen. Os na fydd yn bosibl, cynhelir y CCB ym mis Medi.

2. **YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Clare Hughes; Y Gyngh. Angharad Jones (Cadeirydd); Y Cyngh. John Jones; y Cyngh. Gareth Owen (Dirprwy-Gadeirydd), Y Cyngh. Doug Rowbotham; Y Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies & Eleri Thomas (Clerc).

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Gyngh. Laura Jones (a oedd am ddiolch i'r Cyngor Cymuned am y cerdyn a anfonwyd ar achlysur genedigaeth ei mab, Rhydian); y Gyngh. Mair Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd); y Cyngh. Non Jones, y Cyngh. Alun Price Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd) a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
**Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol John Evans cyn y cyfarfod:**
Roedd nifer y troseddau'n dal yn isel. Bu cynnydd yn yr adroddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i gynnwys amheuaeth o dorri Rheoliadau Llywodraeth Covid19. Derbyniwyd sawl adroddiad am bobl yn teithio i Goedwigaeth Tywi, uwchben Ystrad Fflur, i lôn oddi ar y ffordd. Yn ystod y penwythnos blaenorol, derbyniwyd adroddiad am nifer sylweddol o unigolion, o Loegr, wedi torri'r Rheoliadau.

5. **DATGAN DIDDORDEB:** Dim wedi'i ddatgan.

6. **CADARNHAU CYFARFOD O'R 21ain O FAI 2020**
**CYNIGIWYD** (y Cyngh. Gareth Owen), **EILIWYD** (Y Cyngh. John Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol bod cofnodion Cyfarfod y 21ain o Fai 2020, yn gywir arwahan i'r canlynol:
**Cyf Cofnod: 9.7: Zurich Municipal**: Anfoneb: Yswiriant y Cyngor Cymuned 1.06.2020-31.05.2020 £492.12.
Dylai ddarllen 1.06.2020 - ***31.05.2021***
Arwyddir y Cofnodion fel rhai cywir, gan y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones pan fydd amgylchiadau'n caniatau.

7. **MATERION YN CODI**
   - **7.1 Glan-yr-Afon:** parthed tanc olew, nododd ymateb gan G.S. Ceredigion nad oedd y tir a leolwyd y tanc arno, ar dir comin cofrestredig ac ni ellid canfod tystiolaeth o lwybr cerdded yn rhedeg trwy'r ardal. Nid oedd yn ymddangos bod gan y Cyngor Sir gyfrifoldeb, mewn perthynas â'r tir. Cyfrifoldeb perchennog /rheolwr y tir yw trefnu gwaredu â'r tanc olew a thrafod materion tresmasu os dymunir. Bydd y Gyngh. Clare Hughes yn gofyn i Mr Tom Gilbert os yw'r tanc wedi'i dynnu o'r ardal. *Dim datblygiadau'n ystod y cyfarfod hwn.*
   - **7.2 Coed sy'n tyfu yn agos i brif bont, Glan-yr-Afon**: diolchwyd i'r Cynghorydd Doug Rowbotham am docio'r coed.
   - **7.3 Aelodaeth Pwyllgorau'r Pentref:** *ni dderbyniwyd adroddiad.*
   - **7.4 Trwsio'r Fainc, Ffair Rhos:** *ni drafodwyd yn ystod y Cyfarfod.*
   - **7.5 Torri Gwair o gwmpas y pentref dros fisoedd yr haf**: Gwobrwywyd y cytundeb i Mr D Benjamin, Contractwyr Torri Glaswellt, Iard Glo, Ffordd yr

Orsaf, Tregaron yn ystod y cyfarfod blaenorol.  Adroddwyd bod 2 doriad wedi'u hymgymryd.
Roedd angen torri glaswellt ar y ffordd, y tu allan i Neuadd Pantyfedwen. Penderfynwyd hysbysu Cyngor Sir Ceredigion.
Roedd angen torri rhai ardaloedd glaswellt ar Ystâd Maesydderwen. *Tai Ceredigion* oedd yn gyfrifol am 2 ardal a *Chyngor Sir Ceredigion* oedd yn gyfrifol am 2 ardal pellach.
Adroddwyd bod coed wedi gordyfu yn ardal Glan-yr-Afon. **CYTUNWYD:** Y Cyngh. Gareth Owen, y Cyngh. Gareth Owen, y Cyngh. Doug Rowbotham a'r Cyngh. Ifan Lloyd-Davies i glustnodi sylw i'r mater, yn ystod y penwythnos canlynol.

**7.6 COVID-19: DU wedi Cloi-Lawr ers y 23ain Mawrth 2020 mewn ymgais i atal y Covid-19 rhag lledaenu.**

Roedd ansicrwydd ynghylch y sefyllfa bresennol parthed *Grŵp WhatsApp* y Cyngor Cymuned a sut y byddai'r Cyngor Cymuned yn delio â cheisiadau am gymorth, o'r platfform hwnnw. Adroddwyd bod unigolion wedi derbyn cymorth yn ystod y gorffennol. Ymatebodd aelodau i geisiadau llafar fel y codasant.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1 Arolygiad Chwarae 2020 ROSPA (Cymdeithas Frenhinol Atal Damweiniau) 2020: Ardal Chwarae Pantyfedwen**

Mae'r arolygiad wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin 2020.

**8.2 Diwrnod VJ (Buddugoliaeth yn Japan) 15.08.2020**

Oherwydd y sefyllfa bresennol yn ymwneud â COVID-19 a rheolau pellhau cymdeithasol, gellid ystyried y canlynol  er mwyn nodi'r digwyddiad:

1. **Pibyddion**: i chwarae *Battle's O'er* ar wawr y bore am 5.47am amser lleol.
2. **Biwglwr, Chwaraewyr Trwmped a Chorned**: chwarae'r *Last Post* a *Reveille* am 11am fel rhan o 2 funud o osteg; oddi cartref neu mewn lleoliad diogel o ddewis ac yna am 8.18pm chwarae *Sunset.*
3. **Gwaeddwr y Dref:**  ymgymryd â'r "Cry for Peace Around the World" unigryw a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur am 11.05am o'u cartref neu mewn lleoliad diogel o ddewis.
   Cynigiodd y Cyngorydd Sirol Ifan Lloyd Davies y gellid trefnu digwyddiad VE (Buddugoliaeth yn Ewrop) a VJ, yn yr Hydref ar ôl codi'r cyfyngiadau cloi.  Adroddwyd bod achlysur Diwrnod VE wedi'i nodi ar yr 8fed o Fai 2020 pan gododd trigolion yr ardal gwydriad, y tu allan i'w heiddo.
   Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd yn unfrydol i wahodd trigolion wardiau Cyngor Cymuned Ystrad Fflur i godi gwydraid unwaith eto, ar y 15fed o Awst i nodi'r achlysur, gan gadw mesurau pellhau cymdeithasol.
   Cytunwyd i arddangos poster yn y Siop ac ar safle ar y we'r Cyngor Cymuned.

**8.3 Gohebiaeth eraill**: er gwybodaeth yn unig.

## 9. CYLLID

**9.1 Cynhaliwyd cyfarfod brys o'r Cyngor Cymuned ar ddydd Llun 20fed Ionawr 2020** i drafod sut y gallai'r Cyngor Cymuned helpu rhieni Shaun ac Erin Harvey o ganlyniad i drasiedi carafan yn Ffair Rhos ar y 19.01.2020 pan gollodd Zac Harvey 3 mlwydd oed ei fywyd a gadael ei frawd Harley mewn cyflwr critigol.
Cytunwyd cyfrannu £500 ar gyfer y costau teithio o/i'r ysbyty @ £0.45 y filltir.
Cytunwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf i wneud taliadau 4 x £125 i'r 4 brif barti.  Bydd angen tystiolaeth wedi'i arwyddo.  (Taenlen wedi arwyddo) cyn

rhyddhau'r swm o arian. **CYTUNWYD:** Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies i symud y mater yn ei flaen. *Dim datblygiadau'n ystod y cyfarfod hwn.* Roedd y Cyngh. John Jones wedi cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn ystod darllediad teledu'r drasiedi.

**9.2 Archwiliad Allanol Grant Thornton 2019-20**

**Archwiliad Mewnol 2019-20**: Cwblhaodd Mrs Enid Hughes yr Archwiliad Mewnol am ffi o £100 a chadarnhawyd bod y cyfrifon yn gywir. O ran y cwestiwn ar y Ffurflen Flynyddol, yn gofyn petai'r Cyngor Cymuned yn ymgymryd â rôl Ymddiriedolwr, dylai'r ymateb cywir ddatgan "ydy" gan fod y Cyngor Cymuned yn gweithredu fel Ymddiriedolwr Pwyllgor y Neuadd, pe na bai arian ar gael. Atgoffodd Mrs Hughes aelodau'r Cyngor Cymuned o bwysigrwydd arolygu taliadau ar hap fel yr ymddangosant ar Ddatganiadau Banc, yn rheolaidd.

Gellir gweld cyfrifon Cyngor Cymuned Ystrad Fflur ar wefan y Cyngor Cymuned : http://www.ccystradfflurcc.org.uk/2019-20.

**Ffurflen Flynyddol Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a ddaeth i ben ar y 31ain Mawrth 2020:** wedi'i chwblhau gan yr Archwilydd Mewnol, y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'r Cadeirydd (gan arsylwi ar fesurau pellhau cymdeithasol). Anfonir at sylw Grant Thornton o fewn yr wythnos nesaf.

**Sefyllfa Ariannol 31.03.2020**

**3 Cyfrif y Cyngor Cymuned**

Cyfrif Cyfredol: £2,544.27; Cyfrif Busnes £10.16; Cyfrif Ysgoloriaeth £350.76 **CYFANSWM £2,905.19** c/d ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon cyn derbyn y Praesept.

Cynigir cyfle'n awr i Etholwyr i edrych ar y cyfrifon o'r 1.07.2020-28.07.2020. Arddangosir rhybudd ar wefan y Cyngor Cymuned (nid oes angen ei roi ar yr Hysbysfwrdd, eleni, oherwydd rheoliadau diogelwch Covid19)

**9.3 Cyflog y Clerc Mai/Mehefin 2020**: £193.83 x2 (Cyflog Gross).

**9.4 Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir. *Yn disgwyl taliad.*

**9.5 Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned yn ystod cyfarfod y dyfodol.

**9.6 Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha**: yn cael ei gwobrwyo yn arferol i ddisgybl Ysgol y Bont yn ystod y Seremoni Diwrnod Gwobrwyo. Adroddodd Y Gyngh. Angharad Jones y byddai'n mynd yn ei flaen eleni. Penderfynwyd darganfod petai'r Ysgoloriaeth yn cael ei gwobrwyo i un neu ddau disgybl h.y. £20x1 neu £10x2.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Cais Cynllunio: A200204. Ymgeisydd:** Mrs M McCready. **Lleoliad:** Garej Ffair Rhos, Ystrad Meurig, SY25 6BP. **Bwriad:** Defnyddio llawr uchaf fel fflat dwy ystafell wely at ddefnydd llety gwyliau. Mae manylion y cais ar y wefan www.ceredigion.gov.uk/planning; mae newidiadau eisoes mewn perthynas â'r Cais. Nodwyd y cynllun diwygiedig.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 8.05 pm.**

**11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 16eg Gorffennaf 2020 @ 7pm.**

================================================== (Arwyddwyd / Dyddiad)